

# CINIO YSGOL – AROLWG CIPLUN O BLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU

## COMISIYNYDD PLANT CYMRU

## MAWRTH 2024

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cinio Ysgol – Arolwg ciplun o blant a phobl ifanc yng Nghymru

## Cyflwyniad

Yn ystod mis Mawrth 2024 buon ni’n gofyn i blant a phobl ifanc roi eu barn ar ginio ysgol trwy arolwg.

Roedd yr arolwg yn rhan o gyfres sy’n parhau o gwestiynau pynciol rydyn ni’n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, sef y Materion Misol, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o faterion. Rhannwyd hyn yn uniongyrchol â’r holl ysgolion oedd wedi ymuno â’n cynlluniau hawliau plant[1] ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

Fel rhan o becyn yr arolwg, dangoswyd fideo i’r plant a’r bobl ifanc yn cyflwyno’r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau am eu cinio ysgol, fel beth roedden nhw’n ei fwynhau am ginio ysgol a sut bydden nhw’n eu gwella. Fe wnaethon ni awgrymu yn yr amlinelliad o’r sesiwn, y dylai plant gael ychydig o funudau, ar ôl y fideo, i drafod eu barn gyda’i gilydd cyn ateb yr arolwg.

Roedd gan ysgolion ddau opsiwn wrth gwblhau’r arolwg; gallai plant a phobl ifanc naill ai wneud hynny’n annibynnol, neu gallai athro gwblhau’r arolwg ar ran y grŵp trwy ateb cyfres wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o’r drafodaeth.

Atebodd 490 o blant a phobl ifanc rhwng 7 ac 18 oed yr arolwg yn unigol. Bu 1250 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o’u barn. Fe gawson ni ymatebion gan 19 o awdurdodau lleol.

Datblygwyd y cwestiynau yn fewnol, ar sail themâu oedd wedi dod i’r amlwg o ymarferiadau ymgysylltu blaenorol gyda phlant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

---

[1]Nifer yr ysgolion sydd wedi ymuno â’n cynlluniau Llysgenhadon ar hyn o bryd:
Cynradd – 633
Uwchradd – 83

# Cwestiynau i blant a phobl ifanc

## Cwestiynau ymateb caeedig

**Wyt ti'n cael cinio ysgol?**
Ydw – 51%
Weithiau – 40%
Nac ydw – 9%

**Yn dy ysgol di, oes yna ddewis da o fwyd iach i ginio?**
Weithiau – 48%
Oes – 43%
Nac oes – 9%

**Wyt ti'n llawn ar ôl cael cinio ysgol?**
Weithiau – 41%
Nac ydw – 40%
Ydw – 19%

**Wyt ti'n gallu cael rhagor o fwyd (ail ddogn) os wyt ti'n gofyn?**
Nac ydw – 44%
Weithiau – 28%
Ydw – 16%
Ddim yn berthnasol i fi – 12%

**Amser cinio, wyt ti bob amser yn gallu cael llysiau os wyt ti eisiau rhai?**
Ydw – 76%
Nac ydw – 24%

**Amser cinio, wyt ti bob amser yn gallu cael ffrwythau os wyt ti eisiau rhai?**
Ydw – 78%
Nac ydw – 22%

## Cwestiynau testun rhydd

O dan bob cwestiwn testun rhydd rydyn ni wedi cynnwys y tri ateb ar y brig a roddodd y plant.

**Pam rwyt ti’n dewis cael cinio pecyn bob dydd?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- ddim yn hoffi cinio ysgol
- llenwi nhw mwy na chinio ysgol
- ffysi am fwyd
- hoffi bwyd eu rhieni yn fwy

**Beth wyt ti’n meddwl yw’r peth gorau am ginio ysgol?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- eitemau bwyd penodol
- blas y bwyd
- gallu dewis beth maen nhw eisiau

**Beth yw’r peth gwaethaf am ginio ysgol?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- eitemau bwyd penodol
- dognau bach/eisiau mwy o fwyd
- ddim yn hoffi safon y bwyd neu sut mae’n cael ei goginio neu ei gyflwyno

**Pa un peth byddet ti’n newid i wneud cinio ysgol yn well?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- eisiau mwy o fwyd

- eisiau mwy o ddewis
- newidiadau cysylltiedig ag eitemau bwyd penodol

**Oes yna unrhyw beth arall hoffet ti ddweud wrthyn ni am ginio ysgol?**

Roedd yr atebion mwyaf cyffredin yn dod o dan y themâu canlynol:

- sylwadau am eitemau bwyd penodol
- sylwadau cadarnhaol am hoffi cinio ysgol
- eisiau mwy o amrywiaeth

# Cwestiynau i athrawon/weithwyr ieuenctid

## Cwestiynau ymateb caeedig

**Faint o blant/bobl ifanc sy'n cael cinio ysgol yn ystod yr wythnos?**
Y rhan fwyaf ohonyn nhw – 66%
Rhai ohonyn nhw – 24%
Pawb ohonyn nhw – 11%
Dim – 0%

**Faint sy'n meddwl bod dewis da o fwyd iach i ginio?**
Rhai ohonyn nhw – 53%
Y rhan fwyaf ohonyn nhw – 34%
Dim – 11%
Pawb ohonyn nhw – 3%

**Faint sy'n teimlo'n llawn ar ôl cael cinio ysgol?**
Rhai ohonyn nhw – 66%
Dim – 16%
Y rhan fwyaf ohonyn nhw – 16%
Pawb ohonyn nhw – 3%

***Dim ond os yw'n berthnasol* Faint sy'n teimlo eu bod yn gallu cael rhagor o fwyd (ail ddogn) os byddan nhw'n gofyn?**
Dim – 29%
Rhai ohonyn nhw – 29%
Y rhan fwyaf ohonyn nhw – 18%
Amherthnasol – 18%
Pawb ohonyn nhw – 6%

**Faint sy'n teimlo eu bod nhw bob amser yn gallu cael llysiau amser cinio os ydyn nhw eisiau?**
Rhai ohonyn nhw – 45%
Pawb ohonyn nhw – 21%
Y rhan fwyaf ohonyn nhw – 18%
Dim – 16%

**Faint sy'n teimlo eu bod nhw bob amser yn gallu cael ffrwythau amser cinio os ydyn nhw eisiau?**
Rhai ohonyn nhw – 42%
Pawb ohonyn nhw – 26%
Y rhan fwyaf ohonyn nhw – 24%
Dim – 8%

## Cwestiynau testun rhydd

Pan ofynnwyd oedd ganddyn nhw unrhyw beth arall i'w ychwanegu ar sail eu trafodaethau gyda'r grŵp, roedd y sylwadau mwyaf cyffredin gan athrawon yn dod o dan y themâu canlynol:

- eisiau mwy o amrywiaeth
- eisiau dognau mwy
- plant yn teimlo bod pris bwyd yn uchel

# Casgliad

Mae'n amlwg bod cinio ysgol yn cael ei weld fel rhan werthfawr iawn o'r diwrnod ysgol, ac rydyn ni'n gwybod bod llawer o blant yn dibynnu ar y pryd

yma fel prif ffynhonnell egni a maeth. Yn y cyd-destun cymdeithasol presennol, mae’n teimlo’n bwysicach nag erioed bod y prif bryd mae plant yn ei gael yn yr ysgol yn rhoi iddyn nhw’r egni a’r maeth mae arnyn nhw eu hangen i fedru tyfu, chwarae a dysgu. Roedd y farn hon yn glir mewn adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfleoedd i wella iechyd plant yng Nghymru: potensial bwyd ysgol.

Roedden ni’n falch o fedru rhannu barn plant a phobl ifanc trwy amrywiaeth o ddarnau yn y newyddion, gan gynnwys BBC Wales a Newsround.

Mewn ymateb i farn plant, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddan nhw’n fuan yn adolygu’r canllawiau ar brydau ysgol. Dylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru symud ymlaen gyda hyn a sicrhau eu bod yn parhau i wrando ar farn plant a phobl ifanc fel rhan o’u gwaith. Rydyn ni wedi rhannu barn plant gyda Llywodraeth Cymru a chynghorau ar draws Cymru.